# Adolygiad Gwella Ansawdd rhannol o Ganolfan Ddysgu Birmingham Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

## Yr Adroddiad Canlyniadau

### Mehefin 2019

## Cynnwys


**Dull yr Adolygiad Gwella Ansawdd ... 1**
**Yr adolygiad yma ... 1**
**Ynghylch Canolfan Ddysgu Birmingham Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ... 2**
**Y beirniadaethau trosfwaol am Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant mewn perthynas â'i Chanolfan Ddysgu Birmingham ... 3**
Y canmoliaethau ... 3
Y cadarnhadau ... 3
Yr argymhellion ... 3
**Rhagor o wybodaeth ... 4**


*Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.*

## Dull yr Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr Adolygiad Gwella Ansawdd ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.[1] Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (QAA).[2]

## Yr adolygiad yma

Dyma Adroddiad Canlyniadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd rhannol a weithredwyd gan QAA yng Nghanolfan Ddysgu Birmingham Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (PCYDDS). Cynhaliwyd yr adolygiad ar 11 a 12 Mehefin 2019. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Yr Athro John Baldock
- Sarah Riches
- Sala Khulumula (adolygwr sy'n fyfyriwr).

Mae adolygiadau QAA yn brosesau sy'n cael eu gweithredu ar sail tystiolaeth. Mae beirniadaethau'r adolygiadau'n codi o'r dogfennau y mae'r timau adolygu'n eu gweld, y cyfarfodydd y maent yn eu cynnal, a'r profiad a gânt fel adolygwyr sy'n gymheiriaid neu'n fyfyrwyr.

Yn yr adroddiad hwn, ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (2015) (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae'n bosibl i'r feirniadaeth drosfwaol gael ei mynegi ar dair lefel sy'n nodi a yw'r darparwr 'yn bodloni'r gofynion' hyn, 'yn bodloni'r gofynion gydag amodau', neu 'ddim yn bodloni'r gofynion'. Mae rhagor o fanylion am y categorïau yma yn y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd.

Gallwch weld y feirniadaeth drosfwaol ar gyfer yr adroddiad yma ar dudalen 3, ynghyd ag unrhyw ganmoliaethau, cadarnhadau ac argymhellion.

Mae Adroddiad Technegol mwy manwl ar gael hefyd ar gyfer yr adolygiad hwn.[3] Mae'r Adroddiad Technegol yn nodi canfyddiadau'r tîm o dan bob un o'r penawdau yn null yr Adolygiad Gwella Ansawdd.

---

[1] Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.
[2] Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-ni.
[3] Yr Adroddiad Technegol: www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-Cymru-Y-Drindod-Dewi-Sant

# Ynghylch Canolfan Ddysgu Birmingham Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Sefydlwyd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (y cyfeirir ati fel 'y Brifysgol' neu PCYDDS o hyn ymlaen) yn brifysgol â Siarter Frenhinol ym mis Hydref 2012 drwy gyfuno Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant gynt. Ffurfiwyd yr ail o'r rhain drwy gyfuno Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan a Choleg Prifysgol y Drindod, Caerfyrddin yn 2010. Mae'r Brifysgol yn rhan o strwythur prifysgol sector deuol, a elwir yn Grŵp PCYDDS. Yn rhan o'r datblygiad hwn, unodd Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion i greu Grŵp PCYDDS yn y flwyddyn academaidd 2013-14. Hefyd, mae'r Brifysgol wrthi'n gweithio tuag at uno â Phrifysgol Cymru, ei chyn-gorff dilysu, ac mae trefnau llywodraethu integredig wedi bod ar waith rhwng y ddwy brifysgol ers mis Hydref 2017.

Mae gan y Brifysgol gampysau yng Nghaerfyrddin, Llanbedr Pont Steffan, Llundain ac Abertawe.
Trwy ei phartneriaid sector deuol a'i chyfleusterau allgymorth, mae hefyd yn cynnig darpariaeth
addysg mewn amrywiaeth o leoliadau eraill yn Ne Cymru. Mae ganddi ddwy ganolfan ddysgu, un yng Nghaerdydd ac un arall yn Birmingham. Does dim 'prif' gampws unigol, ac mae mwyafrif y cyfadrannau'n gweithio ar draws o leiaf ddau leoliad. Mae gan y staff gampws 'cartref' yn yr ystyr o swyddfa sylfaenol, ond disgwylir i'r mwyafrif weithio ar draws y campysau a'r lleoliadau, gan deithio pan fo'r angen.

Ym mis Mawrth 2019, roedd gan y Brifysgol gyfanswm o 10,315 o fyfyrwyr cofrestredig, gan gynnwys y rheiny sy'n astudio yn ei sefydliadau partner cydweithredol. Roedd 8,643 o fyfyrwyr (oddeutu 84%) yn israddedigion ac roedd 2,454 o fyfyrwyr (oddeutu 24%) yn astudio'n rhan amser.

Disgrifir cenhadaeth y Brifysgol fel "trawsnewid addysg; trawsnewid bywydau". Mae ei gweledigaeth, ei gwerthoedd a'i blaenoriaethau strategol wedi'u disgrifio yn ei Chynllun Strategol 2017-2022. Blaenoriaeth gyntaf y Cynllun yw "Rhoi Dysgwyr yn Gyntaf", ac mae ei hamcanion ategol yn cynnwys "hyrwyddo cyfranogiad gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol" trwy "ddarparu cyfleoedd dysgu hygyrch a thrwy ddileu rhwystrau i gyfranogiad". Un o'r amcanion ategol eraill yw "cynnig rhaglenni academaidd atyniadol a pherthnasol sy'n galluogi i ddysgwyr ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith a sicrhau y gallent, yn eu tro, wneud cyfraniad uniongyrchol i les a ffyniant eu cymunedau".

Agorwyd Canolfan Ddysgu Birmingham ym mis Mawrth 2018. Sefydlwyd y Ganolfan yn ardal Sparkhill Birmingham i "ddarparu cyfleoedd i bobl o bob cefndir i astudio rhaglenni addysg uwch o fewn eu cymuned". Mae'n denu myfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd, gyda nifer o fyfyrwyr na fyddai wedi breuddwydio fel arall o fynd i mewn i addysg uwch, yn ogystal â myfyrwyr hŷn sy'n ceisio cael gwaith a sgiliau bywyd neu sydd eisiau datblygu busnes eu teulu. Cychwynnwyd y ddarpariaeth gydag un rhaglen Tystysgrif Addysg Uwch Lefel 4 mewn Sgiliau ar gyfer y Gweithle a oedd wedi'i sefydlu'n dda yn barod yn y Brifysgol, ac mae'r gwaith o ddarparu rhaglenni BA wedi cychwyn yn barod.

Mae'r adolygiad hwn yn ystyried ffocws a nod strategol y Brifysgol wrth agor y Ganolfan, y ffordd, ac i ba raddau, y mae'r Ganolfan yn cyflawni amcanion strategol y Brifysgol, a pherfformiad y Ganolfan hyd yn hyn. Bydd hyn yn galluogi i'r Brifysgol werthuso datblygiad ei darpariaeth yn Birmingham hyd yn hyn a chynllunio gwelliannau ar gyfer y dyfodol.

# Y beirniadaethau trosfwaol am Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant mewn perthynas â'i Chanolfan Ddysgu Birmingham

Ar sail yr wybodaeth a gyflwynwyd, mae'r tîm adolygu'n barnu hyn:

- Mewn perthynas â'i Chanolfan Ddysgu Birmingham, mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.
- Mewn perthynas â'i Chanolfan Ddysgu Birmingham, mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarn i sicrhau safonau academaidd, i reoli ansawdd academaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

## Y canmoliaethau

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd ddwy ganmoliaeth, sydd wedi'u crynhoi isod.

- Y gefnogaeth wedi'i phersonoli sydd ar gael i'r myfyrwyr drwy gydol taith y myfyriwr - gan gynnwys y mecanweithiau ar gyfer paratoi, cymdeithasu, cynefino a chofrestru myfyrwyr.
- Y camau a gymerir i addasu trefn ddarparu'r rhaglen i sicrhau bod y myfyrwyr yn ymgysylltu'n effeithiol â'u dysgu.

## Y cadarnhadau

Nododd tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd ddau gadarnhad, sydd wedi'u crynhoi isod.

- Y camau a gymerir i ymdrin â phroblemau gyda chadw myfyrwyr mewn ffordd systematig.
- Y camau a gymerir i gyflwyno symposia a gweithgorau ar lefel y rhaglenni i sicrhau bod y rhaglenni'n cael eu darparu'n gyson ar wahanol safleoedd.

## Yr argymhellion

Mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn gwneud tri argymhelliad i'r Brifysgol.

- Sefydlu mecanweithiau i gryfhau'r sicrwydd bod safonau academaidd y dyfarniadau ar wahanol safleoedd yn gymaradwy.
- Sicrhau bod y myfyrwyr yn derbyn gwybodaeth fwy eglur am argaeledd a natur y rhaglen Tystysgrif Addysg Uwch mewn Rheolaeth Gwestai Rhyngwladol.
- Casglu a dadansoddi data'n systematig am foddhad y myfyrwyr ar lefel y modiwlau a'r rhaglenni yng Nghanolfan Ddysgu Birmingham.

## Rhagor o wybodaeth

1 Mae Adroddiad Technegol mwy manwl ar gael hefyd ar gyfer yr adolygiad hwn. Mae'r Adroddiad Technegol yn nodi canfyddiadau'r tîm o dan bob un o'r penawdau yn null yr Adolygiad Gwella Ansawdd.

2 Mae'r adolygiad hwn a'i ganfyddiadau'n ymwneud â'r darparwr cyfan, ac nid yw'n rhoi gwybodaeth am raglenni astudio neu feysydd astudio unigol. I gael rhagor o wybodaeth am y rheiny, cysylltwch â'r darparwr neu ewch i'w wefan.

3 Gallwch weld rhagor o wybodaeth am QAA a'r Adolygiad Gwella Ansawdd ar wefan QAA.

**QAA2444 - R10882 - Medi 19**

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2019
Adeiladau Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk